

13 Mai 2022



Annwyl Bennaeth y Ganolfan

### **Arholiadau Haf 2022**

Gan y bydd tymor yr arholiadau yn dechrau'r wythnos nesaf, rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am eich holl waith caled yn paratoi dysgwyr yng Nghymru ar gyfer arholiadau ac asesiadau eleni. Rydyn ni'n deall eich bod chi a'ch cydweithwyr wedi bod yn brysur yn delio â'r aflonyddwch parhaus sydd wedi'i achosi gan COVID-19 a'n blaenoriaeth o hyd yw system deg i ddysgwyr. Mae'n galonogol gweld cynifer o ddysgwyr yn anelu at gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a byddwn yn cyhoeddi rhifau mynediad dros dro ar gyfer arholiadau'r haf hwn ar 20 Mai 2022.

### **Cyflwyno'r gyfres arholiadau**

Dyma'r gyfres haf gyntaf ers 2019 ac mae'n gyfnod prysur i swyddogion arholiadau yn ogystal â dysgwyr. Rydyn ni'n sylweddoli bod ysgolion a cholegau wedi gorfod ymdopi gyda llawer o faterion a heriau yn ystod y misoedd diwethaf. I'ch atgoffa, mae'n bwysig sicrhau bod gennych gynlluniau wrth gefn ar waith i sicrhau bod arholiadau'n rhedeg yn esmwyth beth bynnag fo'r heriau. Mae sicrhau bod papurau'n cael eu storio'n ddiogel bob amser yn allweddol i hyn. Mae ein Tîm Ymgysylltu Strategol wedi bod yn darparu diweddariadau a hyfforddiant ac mae wrth law i gefnogi swyddogion arholiadau i baratoi.

### **Dyfarnu yn haf 2022**

Fel y [cyhoeddwyd](#) yn flaenorol, i gydnabod yr amharu sydd wedi bod ar addysgu ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS), mae'r gofynion asesu ar gyfer yr haf hwn wedi'u haddasu. Mae'r addasiadau wedi'u rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr ac i gydnabod yr amser addysgu a dysgu a gollwyd.

Gydag arholiadau'n dychwelyd, bydd CBAC yn dyfarnu graddau i ddysgwyr yr haf hwn. Gan fod canlyniadau yn ystod y pandemig wedi bod yn wahanol i'r cyfnod cyn y pandemig, penderfynwyd y bydd dull ychydig yn wahanol yn cael ei weithredu eleni. Fel y [cyhoeddwyd](#) yn flaenorol, bydd y canlyniadau eleni tua hanner ffordd rhwng 2021 a 2019. Mae hyn yn golygu, ar lefel genedlaethol, ein bod yn disgwyl i ganlyniadau fod yn uwch nag yn 2019 ac yn is nag yn 2021.

Mae'n flaenoriaeth bod y graddau y mae dysgwyr yn eu cyflawni yn cefnogi dilyniant i gam nesaf eu haddysg neu gyflogaeth. Rydyn ni'n gweithio gyda CBAC i gytuno ar weithdrefnau ar

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

gyfer dyfarnu graddau eleni sy'n adeiladu ar y drefn arferol ac yn darparu cynllun diogelwch i ddysgwyr. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill ledled y DU fel bod y broses raddio mor gyson â phosibl ac yn deg i ddysgwyr.

### **Sicrhau bod gennych chi'r wybodaeth ddiweddaraf**

Rwy'n gobeithio bod eich dysgwyr wedi gweld cynnwys yn ein hymgyrch sicrwydd ar y cyd, [Lefel Nesa](#), yn ddefnyddiol. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, CBAC, Gyrfa Cymru ac e-sgol, mae'r ymgyrch wedi rhoi sicrwydd, adnoddau a chymorth ychwanegol i ddysgwyr.

Fel rhan o'r ymgyrch, byddwn ni'n dathlu **Diwrnod Pob Lwc** cyntaf Cymru **Ddydd Llun 16 Mai** i ddymuno Pob Lwc i bob dysgwr sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau eleni. Fe welwch amrywiaeth o negeseuon Pob Lwc yn cael eu rhannu ar y diwrnod ar draws holl sianeli partneriaid yr ymgyrch ac rydyn ni'n gobeithio y bydd eich ysgol neu goleg yn ymuno i ddymuno Pob Lwc i ddysgwyr ledled y wlad.

### **Paratoi ar gyfer cyfresi arholiadau yn y dyfodol**

Rydyn ni'n deall bod y pandemig yn parhau i gael effaith sylweddol ar addysgu a dysgu. Rydyn ni wedi ystyried yr angen i ddysgwyr barhau i gael eu cefnogi ac rydyn ni'n gwerthfawrogi bod angen i ganolfannau wybod a fydd unrhyw newidiadau asesu yn parhau i fod ar waith. I gefnogi eich gwaith cynllunio ar gyfer tymor yr hydref, gallaf gadarnhau y bydd gwybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sydd wedi'u creu i Gymru ym mlwyddyn academaidd 2022/2023. Ni fydd unrhyw addasiadau TGAU, UG a Safon Uwch blaenorol yn berthnasol mwyach. Mae gwybodaeth ymlaen llaw yn rhoi syniad o destunau, themâu, testunau neu gynnwys arall y gall dysgwyr ei ddisgwyl yn eu harholiadau. Y prif nod yw cefnogi dysgwyr i baratoi ar gyfer arholiadau. Bydd CBAC yn rhyddhau gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres mis Tachwedd 2022 cyn diwedd y tymor hwn. Bydd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cyfres mis Ionawr 2023 yn cael ei rhyddhau yn yr hydref ac ar gyfer haf 2023 yn nhymor y gwanwyn. Rydyn ni hefyd yn rhagweld y gallai gwybodaeth ymlaen llaw fod yn briodol ar gyfer rhai cymwysterau galwedigaethol sydd wedi'u creu i Gymru. Nid yw gwybodaeth ymlaen llaw yn bosibl ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau, felly bydd llawer o'r addasiadau presennol yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Bydd CBAC yn rhyddhau gwybodaeth am hyn yn fuan. Mae'r mesurau hyn er budd dysgwyr ac maen nhw'n arwydd o'n taith yn ôl i drefniadau asesu cyn y pandemig.

### **Cyfle i ddweud eich dweud!**

Fel rhan o'n gwaith o fonitro cyfres yr haf, rydyn ni'n cynnal holiadur ar-lein i roi cyfle i ddysgwyr, athrawon a darlithwyr roi adborth am yr arholiadau. Mae'r holiadur yn agor ar 16 Mai ac mae ar gael i'w gwblhau tan 4 Gorffennaf. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ein helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n holiadur ymhlith eich cydweithwyr a'ch dysgwyr. Byddwn yn rhannu'r ddolen â chi yr wythnos nesaf.

### **Rhyddhau canlyniadau**

Hoffem atgoffa ysgolion a cholegau bod y canlyniadau'n gyfrinachol tan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (18 Awst ar gyfer UG a Safon Uwch a 25 Awst ar gyfer TGAU) ac ni ddylid eu rhannu ag unrhyw berson neu sefydliad y tu allan i'ch ysgol neu goleg.

Rwy'n gobeithio y bydd y diweddariad hwn o gymorth i chi, rhowch wybod i mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Blaker', written in a cursive style.

**Philip Blaker**  
*Prif Weithredwr*